OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1675 (Cy.216)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mehefin 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

### Diwygio rheoliad 3 (dehongli)

**3.**—(1) Yn rheoliad 3(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*");

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 19 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 139 ac Atodlen 11; Deddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 85; Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158) a chan Ddeddf Addysg 2011, Atodlen 2, paragraffau 1 a 14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol fel y maent yn ymwneud â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 2005/1818 (Cy.146) a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/724 (Cy.96).

(b) hepgorer y diffiniad o "athro neu athrawes gyflenwi tymor byr" ("*short term supply teacher*").

(2) Yn rheoliad 3(2)(b), yn lle "y mae'r corff priodol wedi penderfynu arno yn unol â rheoliad 8(2)" rhodder "a benderfynir yn unol â rheoliad 8(4)".

**Rhoi "Gweinidogion Cymru" yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol"**

**4.** Ym mhob man lle y mae'n digwydd yn rheoliadau 3, 5, 7, 13, 16 ac 20, yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru".

**Disodli rheoliad 8 (hyd cyfnod ymsefydlu)**

**5.** Yn lle rheoliad 8 rhodder—

"**Hyd cyfnod ymsefydlu**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), tri thymor ysgol fydd hyd cyfnod ymsefydlu ("y rheol tri thymor").

(2) At ddibenion cyfrifo'r cyfnod ymsefydlu caniateir i dymor ysgol fod naill ai'n un tymor ysgol neu'n ddau hanner tymor ysgol olynol (gan anwybyddu gwyliau).

(3) Nid yw'r rheol tri thymor yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol—

(a) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn sefydliad lle nad yw'r flwyddyn ysgol yn cynnwys tri thymor ysgol;

(b) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu gan berson mewn gwasanaeth rhan-amser;

(c) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd;

(ch) pan fo unrhyw gyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yn cynnwys cyfnod o lai nag un tymor ysgol;

(d) pan nad yw'n briodol, ym marn y corff priodol, ei fod yn gymwys.

(4) Hyd cyfnod ymsefydlu pan nad yw'r rheol tri thymor yn gymwys yw—

(a) 380 o sesiynau ysgol pan fo paragraff (3)(ch) yn gymwys; a

(b) ym mhob achos arall, unrhyw hyd a benderfynir gan y corff priodol ar yr amod nad yw'r cyfnod hwn yn llai na'r hyn sy'n gyfartal â 380 o sesiynau ysgol neu 3 thymor ysgol."

**Disodli rheoliad 9 (cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu)**

**6.** Yn lle rheoliad 9 rhodder—

"**Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu**

**9.**—(1) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Medi 2003 ond cyn 1 Medi 2012 sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yw:

(a) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo nad yw'n llai nag un tymor ysgol o ran ei hyd;

(b) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad neu sefydliadau yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddynt o ddau hanner tymor ysgol olynol (gan anwybyddu gwyliau);

(c) yn achos athro neu athrawes unigol, cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo o unrhyw hyd arall sy'n briodol ym marn y corff priodol; neu

(ch) cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg AB yn Lloegr pe byddai'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr.

(2) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012 sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yw:

(a) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo nad yw'n llai nag un sesiwn ysgol o ran ei hyd;

(b) cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg AB yn Lloegr pe byddai'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr."

**Disodli rheoliad 12 (goruchwylio a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu)**

**7.** Yn lle rheoliad 12 rhodder—

"**Goruchwylio a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu**

**12.**—(1) Mae pennaeth sefydliad yng Nghymru lle y mae person yn gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi'r person hwnnw o ddydd i ddydd.

(2) Mae corff priodol mewn perthynas â sefydliad yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi cyffredinol person sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn y sefydliad hwnnw.

(3) Rhaid i'r goruchwylio a'r hyfforddi o dan baragraff (2) gynnwys goruchwylio a hyfforddi gan berson sydd â gwybodaeth am y safonau a grybwyllir yn rheoliad 13."

**Disodli rheoliad 14 (cwblhau cyfnod ymsefydlu)**

**8.** Yn lle rheoliad 14 rhodder—

"**Cwblhau cyfnod ymsefydlu**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu—

(a) os yw'r person hwnnw'n cael ei gyflogi mewn sefydliad yng Nghymru pan gwblheir y cyfnod ymsefydlu, neu

(b) os yw sefydliad y pennaeth arweiniol yng Nghymru pan gwblheir cyfnod ymsefydlu sy'n cael ei wasanaethu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd.

(2) O fewn y cyfnod o ugain niwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cwblhawyd y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r corff priodol benderfynu—

(a) a yw'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu wedi bodloni'r safonau a grybwyllir yn rheoliad 13 ac felly wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol;

(b) a ddylai cyfnod ymsefydlu'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu gael ei estyn yn unol ag unrhyw gyfnod y bydd y corff priodol yn penderfynu arno; neu

(c) a yw'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu wedi methu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol.

(3) Rhaid i'r corff priodol roi sylw i unrhyw sylwadau ysgrifenedig sydd wedi dod i law oddi wrth y person o dan sylw cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (2).

(4) O fewn y cyfnod o dri diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaeth benderfyniad o dan baragraff (2), rhaid i'r corff priodol—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad—

(i) i'r person o dan sylw,

(ii) yn achos ysgol berthnasol neu goleg AB, i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r coleg lle y mae'r person yn cael ei gyflogi,

(iii) yn achos ysgol annibynnol, i'r perchennog,

(iv) i bennaeth y sefydliad lle'r oedd y person a oedd yn gwasanaethu'r cyfnod ymsefydlu yn cael ei gyflogi ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu,

(v) os nad yw'r person hwnnw yn cael ei gyflogi gan y corff priodol, i'w gyflogwr (os nad oes hawl gan y cyflogwr i gael hysbysiad o dan baragraff (ii) neu baragraff (iii) uchod), a

(vi) i'r Cyngor; a

(b) os gwnaeth y corff priodol benderfyniad sy'n dod o fewn paragraff (2)(b) neu (c), rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person o dan sylw am—

(i) ei hawl i apelio at y Cyngor yn erbyn y penderfyniad,

(ii) cyfeiriad y Cyngor, a

(iii) y cyfnod amser ar gyfer apelio.

(5) Caniateir rhoi hysbysiad o dan baragraffau (2) a (3) i berson drwy ffacsimili, post electronig neu ddulliau cyffelyb eraill sy'n gallu cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun y cyfathrebiad, a bernir bod hysbysiad sy'n cael ei anfon drwy ddull o'r fath wedi ei roi pan fydd wedi dod i law ar ffurf ddarllenadwy."

**Diwygio rheoliad 18 (swyddogaethau eraill y corff priodol)**

**9.** Yn rheoliad 18, hepgorer paragraffau (2) a (3).

**Diwygio Atodlen 1**

**10.** Yn Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

"**2.** Person—

(a) sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu (gan gynnwys cyfnod ymsefydlu sydd wedi ei estyn cyn iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 10 neu ar ôl iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 14 neu 17); neu

(b) sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu o'r fath ac sy'n cael ei gyflogi i weithio fel athro neu athrawes tra arhosir am benderfyniad gan y corff priodol o dan reoliad 14 o'r Rheoliadau hyn neu reoliad 16 o Reoliadau Ymsefydlu Lloegr."

(b) hepgorer paragraffau 4, 5 a 6.

(c) yn lle paragraff 22(ch) rhodder—

"(ch) naill ai—

(i) wedi cwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol yn llwyddiannus ar ôl hyfforddiant proffesiynol (sy'n debyg i gyfnod ymsefydlu yng Nghymru) mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a gydnabyddir felly gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno; neu

(ii) wedi ei asesu fel un sy'n bodloni'r safonau a grybwyllir yn rheoliad 13 gan sefydliad a achredwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan

reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu gan berson a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru."

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

26 Mehefin 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2005 drwy hepgor y diffiniadau o "y Cynulliad Cenedlaethol" ("the National Assembly") ac "athro neu athrawes gyflenwi tymor byr" ("short term supply teacher") nad oes eu hangen bellach ar ôl y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 4 yn rhoi "Gweinidogion Cymru" yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" ym mhob man lle y mae'n digwydd yn Rheoliadau 2005.

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r ddarpariaeth ynglŷn â hyd cyfnod ymsefydlu y mae rhaid ei wasanaethu. Mae'r diwygiad yn darparu bod rhaid i athrawon sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu drwy gwblhau cyfnodau o gyflogaeth o lai nag un tymor ysgol neu ddau hanner tymor olynol wasanaethu 380 o sesiynau ysgol (sy'n cyfateb i dri thymor ysgol).

Mae rheoliad 6 yn dileu'r gofyniad i gyfnodau o gyflogaeth fod o leiaf un tymor neu ddau hanner tymor olynol. Dim ond i gyfnodau o gyflogaeth ar ôl 1 Medi 2012 y mae hyn yn gymwys.

Mae rheoliad 7 yn diwygio'r gofynion goruchwylio a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Mae'r diwygiad yn gwneud pennaeth ysgol lle y mae cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi personau sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu o ddydd i ddydd, ac mae'n gwneud y corff priodol yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi cyffredinol y personau hynny. Rhaid i'r goruchwylio a'r hyfforddi y mae'r corff priodol yn gyfrifol amdanynt gynnwys goruchwylio a hyfforddi gan berson sydd â gwybodaeth am y safonau sy'n ofynnol o dan reoliad 13 o Reoliadau 2005.

Mae rheoliad 8 yn diwygio'r weithdrefn i'w dilyn gan y corff priodol ar ôl i gyfnod ymsefydlu gael ei gwblhau drwy ddileu'r gofyniad i bennaeth ysgol wneud argymhelliad o ran p'un a yw'r safonau ymsefydlu wedi eu bodloni.

Mae rheoliadau 9 a 10 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.